

# Gwasanaeth Larymau Cymuned



Mae Gwasanaeth Larymau Cymuned ateb yn darparu mynediad at help mewn argyfwng 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos. Gallwch chi, neu gyfaill, perthynas, gwasanaeth cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd, wneud atgyfeiriad, cyhyd â rydych chi'n denant ateb.



Mae angen ichi gael llinell dir yn eich eiddo i osod uned llinell achub. Os nad oes gennych llinell dir, bydd angen ichi drefnu rhoi hyn mewn lle'n gyntaf.

Bydd ein gosodwr llinell achub yn cysylltu â chi ar y ffôn fel arfer, pan mae'ch atgyfeiriad wedi ei dderbyn. Fe'ch gofynnir i ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Eich enw
- Cyfeiriad
- Rhif Ffôn
- Dyddiad Geni
- Manylion cyflwr meddygol perthnasol
- Manylion y meddyg
- Manylion pobl i gysylltu â nhw mewn argyfwng

Anfonir y manylion hyn ymlaen i'r ganolfan wyllo galwadau ac fe'u cedwir yn eu cronfa ddata fel y gallant gael mynediad at eich manylion os ydych chi'n canu'r larwm.

Rhowch wybod inni bob tro ynghylch unrhyw newidiadau i'ch manylion.

## Faint mae'n costio?

Mae cost fach wythnosol am y gwasanaeth larwm a fydd wedi'i chynnwys yn eich rhent wythnosol. Gellir darparu manylion y gost ar gais.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Trefnir apwyntiad i'n gosodwr ymweld â'ch fflat yn ystod amser sy'n gyfleus i osod yr offer yn eich eiddo.



## Tunstall



## Offer

Byddwch yn derbyn uned sylfaen Tunstall Lifeline a sbardun radio personol. Gan ddim ond gwasgu'r sbardun radio neu'r botwm mawr goleuedig ar yr uned gallwch ganu galwad larwm o unrhyw le yn eich cartref.

Dylech chi fod yn gwisgo'ch sbardun radio personol bob adeg. Gallwch naill ai wisgo'r sbardun am eich gwddf ar reffyn gwddf neu am eich arddwrn gan ddefnyddio strapen arddwrn. Bydd eich gosodwr llinell achub yn gofyn ichi ba ddewis a hoffech chi.

## GWNEUD GALWAD LARWM

### Cam 1

I ganu galwad larwm, gwasgwch y sbardun radio neu'r botwm larwm ar yr uned sylfaen.

### Cam 2

Aiff y galwad i'r ganolfan gwylio galwadau a bydd aelod hyfforddedig o staff yn siarad â chi gan ddefnyddio eich enw dewis, fel arfer yn gofyn a yw popeth yn iawn. Gallant eich clywed chi 'heb ddwylo' oherwydd mae'r uned sylfaen Tunstall yn defnyddio seinydd nerthol a meicroffon.

### Cam 3

Bydd y gweithredwr canolfan alw'n galw am help addas gan ofalwr, perthynas, cyfaill neu wasanaethau argyfwng os oes angen. Bydd y ganolfan alw'n cynnal cysylltiad â chi nes ichi gael yr help sydd ei angen arnoch chi.

Canslo galwad larwm...

**Peidiwch â phoeni os gwasgwch chi'r botwm ar eich sbardun radio neu uned sylfaen yn ddamweiniol. Nid ydym yn poeni dimam hynny gan ei fod yn rhoi cyfle inni wneud yn siŵr fod popeth yn gweithio'n iawn.**

**Beth ddylech chi fod yn disgwyl gennym ni pan fyddwch yn ymweld â chi...**

- Eich trin yn gwrtais
- Gwneud apwyntiad
- Dangos cerdyn adnabod ichi
- Parchu eich cartref

# Cyngor Datrys Problemau

Os yw eich llinell ffôn yn wallus neu mae'n dod yn rhydd, bydd eich uned sylfaen yn fflachio'n goch ar y goleuad statws LED a bydd datganiad o rybudd yn seinio'n dweud "llinell ffôn ddigyswllt" a bydd yn seinio drachefn pob 30 eiliad nes i'r llinell fod ar gael. Gwiriwch fod y gwifrau wedi'u plygio'n iawn, os yw'r rhybudd yn parhau wedyn bydd angen arnoch gysylltu â'ch darparwr llinell ffôn.

Os yw eich llinell ffôn yn wallus neu mae'n dod yn rhydd, bydd eich uned sylfaen yn fflachio'n goch ar y goleuad statws LED a bydd datganiad o rybudd yn seinio'n dweud "llinell ffôn ddigyswllt" a bydd yn seinio drachefn pob 30 eiliad nes i'r llinell fod ar gael. Bydd yr uned sylfaen yn gweithio hyd at 4 awr heb ffynhonnell drydan y prif wifrau.

Os ydych chi'n pryderu nad yw'r uned larwm yn gweithio fel y dylai, cysylltwch â ni ar **01437 763688** a bydd ein gosodwr llinell achub yn gallu rhoi cymorth.

## Gofalu Am Offer

Mae'ch sbardun radio personol yn ddiddos, sy'n golygu gallwch ei wisgo yn y cawod. Sut bynnag, nad yw'n addas ar gyfer gwisgo wrth gael badd.

Gellid glanhau eich uned sylfaen llinell achub â sbardun radio gyda chadach meddal sy'n gallu cael ei wlychu gyda glanedydd mwyn os oes angen.

Os nad oes angen yr offer larwm arnoch bellach, ffoniwch ateb ar **01437 763688**.



Mae siarad â ni'n hawdd.



**Galwch heibio i'n gweld ni yn:**  
Tŷ Meyler, Comin Tomos  
Sant, Hwlfordd, Sir Benfro,  
SA61 1QP



**Cysylltwch â ni ar:**  
Ffôn → 01437 763688  
Ffôn am ddim → 0800 854568  
Ffacs → 01437 763997  
E-bost → [hello@atebgroup.co.uk](mailto:hello@atebgroup.co.uk)

